# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Mawrth 2022 – Cyfrol 7– Rhifyn 6

## Yn y rhifyn hwn:



*Cysylltiad Llandyrnog â mynyddwr enwog – gweler t. 13*



*O'r ddaear o dan ein traed ...*



*Hwyl yn Llan Llanast*



*... i'r awyr uwchben*





**Dydd Gwyl Dewi hapus**

**Gwnewch y pethau bychain**

## Bore coffi

**Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at y bore coffi. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau dod at eich gilydd eto i gymdeithasu. Codwyd dros £540 tuag at gost argraffu *Llais Llandyrnog***

# Pytiau newyddion y pentre

Pen-blwydd hapus i Edith Hughes, Cwm Tawel, yn 90 oed ar 5 Mawrth.

Llongyfarchiadau i Harri Rhys, Sgubor Wen, ar lwyddo yn ei brawf gyrru.

**Bydd y Tuesday Club yn dechrau eto, pnawn dydd Mercher (!), 16 Mawrth am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco. Croeso cynnes i aelodau newydd.**



Dathlodd John Evans o Gynwyd, darllenydd brwd o'r Llais, ei ben blwydd yn 90 oed yn ddiweddar, yng Nghlwb Golff y Bala. Roedd John yn arfer byw yn 3 Maes Llan ac mae'n nai i'r ddiweddar Mrs Blodwen Lewis, ac yn gefnder i Glyn Evans, diwedd ŵr Mrs Sylvia Evans, Maes Llan. Felly mae ganddo sawl cysylltiad â'r pentre ac mae'n ymddiddori'n fawr yn ei hanes.

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| 7 Mawrth | 2 pm, Trefoil Guild |
| 8 Mawrth | 10am, Clwb Llyfrau |
| 16 Mawrth | 2pm, Tuesday Club |
| 22 Mawrth | 10am, Clwb Llyfrau |
| 29 Mawrth | Pwyllgor Llais Llandyrnog |

# Oedfaon mis Mawrth

**Capel y Dyffryn**

| | | |
|---|---|---|
| 4 Mawrth | 18.00 | Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd |
| 6 Mawrth | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 13 Mawrth | 11.00 | Dafydd Iwan |
| 27 Mawrth | 11.00 | Parch. Andras Iago |

**St Tyrnog – am 11.15**

| | |
|---|---|
| 6 Mawrth | Cymun Bendigaid |
| 13 Mawrth | Boreol Weddi |
| 20 Mawrth | Boreol Weddi |
| 27 Mawrth | Boreol Weddi |

**St Cwyfan – am 9.30**

| | |
|---|---|
| 6 Mawrth | Boreol Weddi |
| 20 Mawrth | Cymun Bendigaid |

**Llan Llanast**

13 Mawrth, 15.30–17.00 yn Neuadd y Pentre

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at fore coffi eglwysi Llandyrnog a Llangwyfan. Codwyd y swm anrhydeddus o £400.



Mae Wendy Grey-Lloyd yn diolch yn fawr i'r bobl garedig a gyfrannodd arian wrth gael copi o'i stori Nadoligaidd, 'The Angel with One Wing'. Mae'n bleser ganddi ddweud bod yr holl arian a gafwyd wedi'i anfon at elusen blant Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

Mae Wendy hefyd yn diolch i Anwen Davies am ddod â'r stori'n fyw gyda darluniau addas ac am olygu'r testun gwreiddiol.

# Neuadd y Pentre

**Bob nos Lun, 5.30-7pm:** Brownies

Mae croeso i ferched 7–10 oed ymuno â ni. Cysylltwch â Mrs Karen Morris ar 07540 146125 am ragor o wybodaeth.

**12th March:** Bore coffi at Sefydliad y Merched

**19th March:** Bore coffi at Gŵn Tywys

***I logi'r neuadd, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.***

### Costau hurio Neuadd y Pentre

O hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2022, bydd y neuadd a'r gegin ar gael i'w llogi am bris arbennig o £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl sy'n byw yn y gymuned ac sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Bydd disgwyl i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw wedyn.

**Sefydliad y Merched,**
**Llandyrnog a Llangwyfan**

BORE COFFI



**yn Neuadd y Pentre**
**Dydd Sadwrn, 12 Mawrth**
**10–11.30am**

Stondin gacennau Raffl
Stondin Body Shop at Home
Yr holl elw at Sefydliad y Merched

## Bore Coffi

### Neuadd y Pentre

### 19 Mawrth, 10.00–11.30

**Yr elw at** Guide Dogs

**Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar tuag at y stondin cynnyrch cartref**

**Cysylltwch â Bryn ar 07585 170592 am ragor o fanylion**

# Y Gymdeithas Hanes Lleol

Yng nghyfarfod mis Chwefror o Gymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan, cafwyd sgwrs gan Glynis Shaw am erddi hanesyddol yn Nyffryn Clwyd a'r cyffiniau. Hanesydd celf a darlithydd yw Glynis, ac mae'n aelod o Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru ers y 1990au.

Dangosodd gopi o gofrestr tirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru: Clwyd, a gyhoeddwyd gan Cadw yn 1995. Soniodd am nifer o'r gerddi pwysig yn y cyhoeddiad.

Roedd y rhain yn cynnwys Plas Newydd, Llangollen; Llannerch Hall, Llanelwy; Neuadd Wynnstay, yn Nyffryn Dyfrdwy; Llanbedr Hall, Rhuthun; y Rhug, Corwen; Nantclwyd, Llanelidan; a gerddi coffa Dr Evan Pierce yn Ninbych.

Mae'r Gymdeithas yn gweithio ar nifer o brojectau ar hyn o bryd. Os hoffech chi wirfoddoli i fod yn rhan o unrhyw un o'r projectau hyn, byddai'n dda clywed gennych.

Am ragor o fanylion, i ateb eich ymholiadau, i ymuno â'r gymdeithas neu i wirfoddoli i fod yn rhan o'r projectau, anfonwch e-bost at ysgrifennydd y gymdeithas: llangwyfanhistory@hotmail.com.



*Hywel Davies, Ysgrifennydd y Gymdeithas; Glynis Shaw; yr Hybarch Bernard Thomas, cadeirydd y Gymdeithas.*

LLAN Llanast



Ar ôl seibiant, dychwelodd Llan Llanast ym mis Chwefror, ac roedd yn braf croesawu rhai plant newydd. Dysgon ni am Iesu'n galw'r disgyblion i adael eu rhwydi pysgota a'i ddilyn ef – felly cawson ni waith crefft yn ymwneud â chychod a physgod. Gwnaethon ni gychod bychain – ac un mawr iawn fel y gwelwch!



Gwnaethon ni magnedau ac addurniadau pysgod, a physgod wedi eu gwneud allan o gacen reis hyd yn oed! Dysgon ni 'chydig yn fwy am y disgyblion hefyd. Daeth y cyfarfod i ben gyda the hyfryd – oedd wrth gwrs yn cynnwys bysedd pysgod!

Bydd ein cyfarfod nesaf 13 Mawrth, pan fyddwn yn dathlu 10 mlynedd Llan Llanast yn Llandyrnog. Croeso i bawb, a phlant, cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi!

# Olion dyfrgwn



Gwelodd Peter Jenkins, College, yr olion hyn ar lan afon Clwyd tra oedd yn mynd am dro ger y pentref. Mae hyn yn galonogol, gan fod adroddiadau'n bod am ddirywiad annisgwyl ym mhoblogaeth dyfrgwn Cymru. Canfu'r arolwg cenedlaethol cyntaf ers mwy na degawd fod llai o arwyddion o'r mamaliaid hyn ar bron bob dyfrffordd.

Mae niferoedd dyfrgwn yn arwydd pwysig o ba mor iach yw afonydd. Bellach mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu grŵp arbenigol i ymchwilio i'r dirywiad – bydd newidiadau yn ansawdd cynefinoedd, argaeledd ysglyfaeth a llygredd i gyd yn cael eu hystyried. Mae angen rhagor o wybodaeth am effaith grŵp o gemegau o'r enw PFASs a ddefnyddir mewn deunydd lapio bwyd, llestri cegin a dillad sy'n gallu gwrthsefyll dŵr a staenio. Mae arbenigwyr yn pryderu i ba raddau y mae'r 'cemegau am byth', fel y'u gelwir, yn cronni mewn dŵr croyw.

**YN EISIAU:**
**Bin bwyd haearn sinc (un hen, o ddewis) gyda chlawr arni.**
**Yn addas i gadw grawn/bwyd ieir.**
**Cysylltwch â Fiona ar 07813 087797**

# Garddio

Dechreuais arddio yn bedair ar ddeg oed pan gododd Dad a Mam dŷ newydd i ni yn Hafod y Bryn gyda chlamp o ardd a gwell na hyn, Dad yn gwneud tŷ gwydr i fi. I'r rhai ohonoch sydd yn cofio teulu'r Pendletons a oedd yn cadw'r Kinmel Arms ac wedyn yn symud drws nesaf i ni yn Glan Aber, Graham Pendleton oedd fy mentor, roedd yn arddwr penigamp ac yn llawn cyngor ac anogaeth.

Dwi yn arddwr traddodiadol – palu, gwneud compost a defnyddio gwrtaith, chwyn a phla-laddwyr pan fo angen. Dwi yn hoff iawn o rannu cynnyrch yr ardd efo cymdogion ond ddim efo malwod a phryfed gwyrdd ac yn y blaen! Mi fydda i yn anelu i dyfu y mwyafrif o bethau o hadau, does 'na ddim byd yn dal i roi mwy o syndod a phleser na gweld planhigion mor gynhyrchiol yn tyfu allan o hadau mor fychain.



Mae'r flwyddyn arddio yn dechrau yma ar y 1af o Ionawr, pan fydda i yn rhoi casgen dros un planhigyn riwbob ac fel arfer yn cael y riwbob pinc cyntaf yma erbyn dechrau Mawrth yn bwdin arbennig, ac ar amser pan mae riwbob yn ddychrynllyd o ddrud yn y siopau. Ym mis Ionawr mi fydda i yn prynu planhigion tatws cynnar er mwyn eu gosod mewn bocsys wyau. Fydda i ddim ond yn tyfu tatws cynnar, does 'na ddim byd mor flasus. Mi fydda i yn anelu i blannu'r rhai cyntaf ar yr 20fed o Fawrth ac mi fydd rhai megis Swift yn barod mewn rhyw 9 wythnos.

Ganol Chwefror mi fydda i yn hau chilli (ar ffenest yn y gegin). Mae angen tymor hir o dyfu ar chilli ac mi fyddwn yn defnyddio llawer ohonynt i wneud jam chilli a sychu'r mwyafrif i'w malu yn fân a'u defnyddio i goginio.

Mi fyddai yn cadw cylchdro tair blynedd efo'r llysiau – felly yn Chwefror neu Fawrth mi fydda i yn rhoi calch ar y darn lle fydda i yn plannu y brassicas, mae'r rhain angen tir gyda pH uchel.

Ar ôl y chilli, yr hadau nesaf fydda i yn hau ddechrau Mawrth yw'r tomatos – eto dim byd gwell na tomatos yn syth o'r tŷ gwydr. Mi fydda i yn tyfu tua phump gwahanol fath a tua 30 o blanhigion.

Un o'r pethau gwerthfawr yw cadw dyddiadur garddio bob blwyddyn, cadw dyddiadau hau, y tywydd ac unrhyw broblemau, beth oedd yn gweithio yn dda a beth i beidio gwneud eto.

Mae'r ardd yn gofyn am sylw cyson, a dyma ddechrau'r tymor. Y gamp yw ychydig o sylw yn aml a pheidiwch â gadel iddo fynd yn fwrn.

*Richard Davies*


**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Tri lle - Keith a Carol Lester

**Y Gogarth**

Awr a 45 munud yw hyd y daith wrth gerdded o amgylch y Gogarth ac mae Keith wedi gwneud hyn unwaith neu ddwy y flwyddyn ers hanner can mlynedd. Weithiau mae'n amrywio'r llwybr ac yn mynd dros y Gogarth yn hytrach nag o'i gwmpas. Y gwynt sy'n penderfynu i ba gyfeiriad y bydd yn cerdded, gan ei bod hi'n haws cychwyn gyda'r gwynt y tu ôl iddo. Wrth adael Stryd Mostyn ac anelu am draeth Penmorfa ar brydiau mae'r gwynt cryf yn sgwrio'r croen â'r tywod. Wrth droi i'r dde ar hyd yr arfordir, mae'r ffordd yn mynd heibio hen adeilad y tollborth. Dim ond i un cyfeiriad mae traffig yn cael mynd ar hyd Marine Drive ac mae llethr cyson yma nes iddi wyro i'r dde.

Mae'r ffordd isaf, Llys Helig Drive, yn mynd heibio i res o dai mawr sy'n wynebu Eryri ac Ynys Môn. Mae'n arwain at gât ac mae'r lôn yn mynd yn ei blaen tuag at y man lle roedd pobl yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio gynnau adeg rhyfel. Dim ond rhai slabiau o goncrit sydd yno erbyn hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Amgueddfa'r Home Front yn New Street, Llandudno. Mae'r llun o'r awyr yn dangos y lleoliad. Mae lôn y maes tanio yn mynd y tu hwnt i'r olion. Gall y rhai anturus grafangu i fyny'r llwybr serth at Marine Drive.



Ychydig ar ôl i'r system unffordd gychwyn mae llwybr da yn mynd i'r dde. Mae hyn yn arwain at rai caeau bach a'r copa sydd tua 207 metr o uchder.

Mae hi fel petai'r caffi *Rest and Be Thankful* ar ben y Gogarth ar gau y dyddiau hyn. Un diwrnod yn gynnar ym mis Ionawr roedd hi'n ofnadwy o oer ac yn bwrw eirlaw ar yr ochr agored hon. Roedd gwynt cryf bron iawn ag atal Keith rhag mynd yn ei flaen ac yn sicr nid dyma oedd y lle i agor ymbarél. Roedd Keith yn edrych ymlaen at goffi poeth a lloches. Yn lle hynny cyfarfu â'r perchennog a gwynodd fod y pibellau wedi rhewi a'i fod heb ddŵr.

Y peth amlwg nesaf yw'r goleudy ac mae'r ffordd yn newid cyfeiriad. Yn lle golygfeydd clir o'r môr mae yna bellach goedwig o felinau gwynt. Mae golygfeydd y clogwyni ar ochr ogledd-orllewinol y Gogarth yn wych. Mae'r tir serth yn gartref i eifr Cashmir. Yn ddiweddar, manteisiodd y geifr hyn ar y pandemig a'r diffyg pobl yn y dref a mynd i mewn i'r gerddi.

Mae'r gwylanod niferus yn arbennig o swnllyd yn y gwanwyn pan fyddant yn nythu. Mae'r clogwyni calchfaen hefyd yn gartref i blanhigion prin sy'n hoff o bridd alcaliaidd. Mae dŵr yn diferu i'r ffordd ac mae pibonwy'n ffurfio ar dymheredd rhewllyd. Hanner ffordd ar hyd Marine Drive mae cyffordd a gall cerbydau droi i mewn i faes parcio ar y copa ac mae'r ffordd yn mynd heibio eglwys Sant Tudno. Credir bod cenhadwr wedi cau darn o dir, llan, tua 500 OC, lle'r ymgasglodd y bobl leol. Dyma ddechrau Llandudno a'i nawddsant, Tudno.

Gan barhau ar hyd Marine Drive, mae geifr yn cyrraedd mannau peryglus annisgwyl. Nid dyma'r unig rai, gan fod dringwyr yn hongian ar raffau o wynebau clogwyni serth. Yn y diwedd, mae'r ffordd yn cyrraedd y tollborth. Does dim rhaid i gerddwyr dalu. Mae'r llwybr yn aml yn brysur gyda cherddwyr a rhedwyr. Mae Stryd Mostyn yn dod i'r golwg yn fuan.

**Cape Town**

Ychydig i'r de o Cape Town mae anheddiad bach diarffordd mewn dyffryn sy'n rhedeg i lawr i'r môr. Llandudno yw enw hwn ac fe

fuom yn aros yno unwaith mewn llety hunanarlwyo. Dros y blynyddoedd roeddem wedi mynd heibio i'r lleoliad deniadol hwn ac wedi addo i ni'n hunain y byddem yn aros yno am ychydig.

Roedd ein hymweliad cyntaf â Cape Town yn 1969 pan oeddem ar wyliau o Zambia. Mae'r llun yn dangos Mynydd y Penrhyn gyda 'lliain bwrdd' o gwmwl. Mae car cebl yno i gludo twristiaid i'r man uchaf sydd ar ochr dde'r copa gwastad. Ym 1969 cerddodd Keith i'r brig gyda thipyn o grafangu i fyny ceunant. Nid yw'n ddoeth mynd ar eich pen eich hun y dyddiau hyn. Yn 1998 cyrhaeddon ni Cape Town ar ôl gyrru 11,000 o filltiroedd o Lundain mewn 41 diwrnod mewn Land Rover Discovery. Roedd cyrraedd yn ddiogel yn rhyddhad mawr. Cawsom ychydig ddyddiau o foethusrwydd yn y Table Bay Hotel ar y Victoria and Alfred Waterfront. Dychwelodd ein cerbyd i'r Deyrnas Unedig ar long.

Mae'r ddinas wedi'i chodi ar hyd yr arfordir a llethrau isaf y mynydd. Uwchben y tai mae'r llystyfiant yn cael ei adnabod fel *fynbos*. Ymhlith y llystyfiant mae blodyn cenedlaethol De Affrica, sef *protea*. Mae llawer o blanhigion ar benrhyn De Affrica yn unigryw, felly mae'n cael ei alw'n 'deyrnas flodau' – un o ddim ond chwech yn yr holl fyd. Mae llawer o'r planhigion i'w gweld yng ngardd fotaneg drawiadol Kirstenbosch.

Mae'r ddinas yn fodern gyda bwytai a siopau brandiau adnabyddus, blociau swyddfeydd uchel a phorthladd mawr ynghyd ag adeiladau hŷn o'r canrifoedd blaenorol. Mae ganddi hanes diddorol, gan mai Ewropeaid yr Isel-diroedd a ddarganfu'r wlad gyntaf yn y 15fed ganrif. Tros y blynyddoedd roedd newydd-ddyfodiaid i'r ddinas yn creu tensiynau rhwng hiliau gwahanol. Mae twristiaid yn ymweld ag Ynys Robben, ger Cape Town, lle cafodd Nelson Mandela ei garcharu cyn iddo ddod yn Arlywydd. Mae Cape Point yn boblogaidd hefyd, gyda'r babŵns sy'n byw yno yn awyddus i gymryd eiddo rhai anwyliadwrus. Cawsom ni brofiad o hyn – bagiad o goffi a thun o bysgod wedi'u cymryd drwy ffenestr y car. Diflannodd ddiddordeb yr anifail yn y rhain ac fe gawson ni nhw'n ôl yn gyfan.

Mae llawer o bobl yn ymddeol i Cape Town o'u gwaith sydd ymhellach i'r gogledd. Mae gan yr ardal hinsawdd fwyn nad yw byth yn rhy boeth nac yn rhy oer. Fodd bynnag, mae hi bob amser yn wyntog yno. Tynnwyd y llun o draeth yr oedd barcutwyr yn ei hoffi'n fawr. Bydd syrffio barcud yn gystadleuaeth newydd yng Ngemau Olympaidd 2024. Mae nifer fawr o bobl yn mwynhau gweithgareddau ar y traeth ac ar y dŵr. Mae dyfroedd yr Iwerydd yn oerach nag ochr Cefnfor India i'r penrhyn.



***Camping at the Station*?**

Yr ochr arall i Gefnfor India yn Awstralia mae'r A95 yn mynd o Perth bron i Port Hedland am ryw 800 milltir drwy dir gwyllt Gorllewin Awstralia. '*Hard tops*' yw'r enw ar ffyrdd â tharmac ac roedd cyflwr y ffordd hon yn dda. Trenau ffordd hanner can metr o hyd yn gwibio ar 80 m.y.a. yr awr oedd y rhan fwyaf o'r traffig. Y peth gorau i'w wneud oedd rhoi digon o le iddyn nhw fynd heibio.

Roeddem wedi llogi cartref modur ac roedd angen dod o hyd i faes gwersylla. Doedd fawr neb yn byw yn y man anial hwn. Rywle ychydig i'r gogledd o le o'r enw Capricorn, roedd arwydd yn pwyntio at ffordd drol a oedd yn dweud, '*Camping at the Station*'. Ymhen rhyw bum milltir daeth giât i'r golwg gyda lôn at dŷ a buarthau gwartheg.

Roedd y ffermwr yn falch o'n gweld gan nad oedd neb wedi ymweld ag ef i wersylla yn ddiweddar. Caniataodd i ni gysylltu'r cerbyd â'i gyflenwadau trydan a dŵr. Roedd dŵr o'r twll turio braidd yn frown. Yn ôl yr arfer yng ngwersylloedd Awstralia, roedd grid a lle tân i grilio cig ar dân agored gyda chyflenwad o goed. Roedden ni'n hoffi grilio cig cangarŵ –


# Tri lle: parhad

does fawr ddim braster arno ac mae'n hyfryd ar ôl ei goginio os nad yw'r tân yn rhy boeth.

Fel arfer wrth deithio, roedden ni'n mynd am dro neu'n nofio, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Doedd cerdded yn y man hwn yn braf iawn gan fod pryfed ym mhobman. Doedd hyn yn ormod o broblem wrth iddi dywyllu ac yn ddigon cynnes i eistedd o amgylch y tân. Mae 'na swyn i wersylla yn y berfeddwlad!

Generadur disel oedd yn darparu trydan. Roedd ychydig o wartheg o gwmpas y tyddyn a oedd yn mynnu tynnu sylw atyn nhw eu hunain. Dywedodd y ffermwr wrthym ei fod wedi prynu'r lle bum mlynedd yn ôl a'i bod heb fwrw glaw ers hynny. Roedd un anifail i bob rhyw 40 erw gan fod y tir yn debyg i anialwch. Roedd yn ransh enfawr. Dywedodd y ffermwr efallai na fyddai yn ein gweld yn y bore gan ei fod yn mynd i drwsio ffensys. Roedd angen trwsio'r ffens derfyn 30 milltir i ffwrdd ac yn bendant 'oddi ar y ffordd'! Aeth ar ei ben ei hun gyda'i gi a'i fwriad oedd bod oddi cartref am rai dyddiau. Arhosodd ei wraig gartref.

Am 10 o'r gloch y nos diffoddodd y generadur a'r holl oleuadau. Doedd dim lleuad, cwmwl na llygredd golau. Daeth y tywyllwch. Wrth i'n llygaid ddod i arfer â'r tywyllwch, daeth llu o sêr anhygoel o ddisglair i'r golwg ar draws yr awyr glir. Y Groes Ddeheuol, sydd i'w gweld o bob man yn y wlad, yw'r arwyddlun ar faner Awstralia. Roedd yr olygfa yn gwneud i ni deimlo'n wylaidd – a ninnau'n byw ar ein planed fach, rydyn ni i gyd yn greaduriaid mewn bydysawd eang.



Mae'r babanod wedi bod yn dysgu am Flwyddyn Newydd China. Gwnaethon nhw addurniadau a chael gwledd o fwyd China, yn ogystal â gorymdaith! *Gon hay fat choy* – mae hyn yn golygu Blwyddyn Newydd Dda.

YSGOL BRYN CLWYD

Fel rhan o'u thema ar hyn o bryd, dreigiau, mae'r plant wedi bod yn dysgu trwy chwarae rôl. Daeth ôl troed anferth draig i'r golwg ar y cae – a dyna ddechrau'r ymchwiliad!

Mae'r Dosbarth Iau wedi bod yn dysgu am Oes y Tywysogion fel rhan o'u gwaith hanes. Roedd ganddyn nhw lawer o ddiddordeb yn y brwydrau a gafodd y tywysogion â Lloegr yn ogystal â'r ymladd drwy'r amser ymhlith ei gilydd. Hefyd fe ddysgodd y disgyblion mai yn ystod y cyfnod hwn y cafodd yr Eisteddfod gyntaf ei chynnal a bod rhai haneswyr yn credu bod y syniad wedi dod o Ffrainc yn wreiddiol. Bydd eu gwaith yn cael ei hel at ei gilydd yn eu llyfr am hanes y byd.

Ym Mathemateg, yr her oedd gwneud y tabl 3 o ddarnau arian.

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Aelodau'r Pwyllgor:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Sian Gwyn Ifan.

# Project awyr dywyll

Yma yn Llandyrnog rydym yn gwybod ein bod yn byw mewn lle prydferth yn ystod oriau golau dydd ond gallwn hefyd weld cymaint mwy o awyr ogoneddus y nos na'r rhai sy'n byw mewn trefi. Fel plentyn yn tyfu i fyny yn y ddinas, treuliais oriau lawer yn yr awyr agored ar noson oer o aeaf efo fy *Ladybird book of the Night Sky* yn ceisio dysgu'r cytserau ond roedd goleuadau'r stryd yn amharu ar fy ngallu i'w gweld. Felly mae'r awyr yma a chymaint mwy sydd i'w weld yn dal i fy syfrdanu.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn credu bod ein hawyr dywyll yn werth ei gwarchod. Eu bwriad yw ennill statws swyddogol gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol. Dim ond yr ardaloedd hynny sy'n mwynhau awyr serennog eithriadol ac sy'n addo eu hamddiffyn a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol sy'n cael statws gwarchodfa.

Dim ond 195 o Fannau Awyr Dywyll sydd yn y byd ac mae gan y DU 11 ohonyn nhw. Roedd Exmoor yn un o'r rhai cyntaf yn 2011 ac yna Bannau Brycheiniog yn 2013 ac Eryri yn 2015. Cranborne Chase ger Caersallog (Salisbury) ydy'r AHNE cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael statws Gwarchodfa Awyr Dywyll yn 2019 ac mae'n cynnal digwyddiadau syllu ar y sêr sy'n denu pobl i'r ardal. Cafwyd digwyddiadau tebyg yn AHNE Bryniau Clwyd a Glannau Dyfrdwy yn ystod Wythnos Awyr Dywyll Cymru ym mis Chwefror

Mae awyr dywyll yn bwysicach na dim ond syllu ar y sêr. Mae gormod o olau artiffisial yn cael effaith negyddol ar lawer o greaduriaid, sy'n ein cynnwys ni, fodau dynol! Rydym wedi esblygu i rythmau golau-tywyll naturiol dydd a nos. Mae ymchwil yn awgrymu y gall golau artiffisial yn y nos effeithio'n negyddol ar iechyd pobl, gan gynyddu'r perygl o ordewdra, iselder ysbryd, anhwylderau cysgu, diabetes, canser y fron a mwy. O ran ein bywyd gwyllt lleol, mae tua 60% ohono yn greaduriaid y nos a gall gormod o olau effeithio ar faeth, patrymau cysgu, atgenhedlu ac amddiffyniad rhag ysglyfaethwyr.

Mae meysydd parcio Llangwyfan a Moel Arthur yn Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll – mannau diogel i barcio lle gellir gweld y sêr yn glir. Mae Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru wedi creu Prosiect Nos – gyda'r nod o greu'r ardaloedd mwyaf yn y byd o awyr warchodedig! Byddai hyn yn cynnwys ein hardal AHNE ni ochr yn ochr ag AHNE Ynys Môn, AHNE Llŷn a Pharc Cenedlaethol Eryri. I gael rhagor o wybodaeth am hyn ewch i www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/projects/dark-skies/a dewiswch yr iaith Gymraeg.



**Ffaith ddiddorol**

Oeddech chi'n gwybod bod gan Celtiaid eu henwau eu hunain ar gyfer y sêr a'r cytserau? Roedden nhw'n defnyddio enwau o'r Mabinogi a llenyddiaeth werin arall. Er enghraifft, 'Telyn Idris' yw'r enw Celtaidd ar y cytser *Lyra*.

*Catherine Howarth*



**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

# Gair gan yr Offeiriad

Wrth i ni gyrraedd mis Mawrth, mae'n adeg ystyried rhyfeddodau'r Gwanwyn unwaith eto. Mae nifer fawr o bobl yn berchen ar ffermydd yn ein hardal, neu'n gweithio arnyn nhw, ac wrth gwrs mae'r tymor wyna ar ei anterth. Bywyd newydd, fel pleserau natur yn y Gwanwyn a'r llawenydd a gawn wrth wylio ŵyn, yw'r thema Gristnogol adeg y Pasg. Daw hon i'w huchafbwynt ar 17 Ebrill wrth i ni ddathlu'r Pasg a bywyd newydd Iesu wrth iddo orchfygu marwolaeth.

Roedd Llan Llanast ar 13 Chwefror yn ddigwyddiad hyfryd ac roedd hi'n bleser gweld teulu newydd yn y pentre yn ymuno â ni – mae croeso i bob teulu atom. Y thema oedd galw dilynwyr Iesu. Fel Cristnogion rydyn ni'n credu bod Duw yn ein galw ni i adnabod ei gariad at bawb ohonon ni. I'r sawl sy'n holi am y ffydd ac yn croesawu goleuni Duw, mae ein bywyd yn llenwi â gobaith a deffroad ysbrydol.

Fel teulu newydd hefyd, mae Vicky a minnau yn credu ein bod ni wedi'n galw i fod yn eich plith ac yn edrych ymlaen at gyd-deithio â chi drwy'ch bywyd fel cymuned. Bydd y Llan Llanast nesaf ar 13 Mawrth yn nodi degfed pen blwydd yr eglwys yn dechrau'r fenter hon i wasanaethau'r gymuned. Mae'n helpu i ddod â theuluoedd at ei gilydd ac i ddysgu am ryfeddod a dirgelwch y ffydd. Ymunwch â ni ac â'r ffyddloniaid sydd wedi bod yn dod yma dros y ddeng mlynedd ddiwethaf am 15.30 yn neuadd y pentre. .

Cyn y Pasg, wrth gwrs, mae chwe wythnos y Grawys, sy'n dechrau ar ddydd Mercher y Lludw. Dyma'r diwrnod ar ôl dydd Mawrth Ynyd, neu'r diwrnod crempog. Eleni mae hwn ar yr un diwrnod â dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth.

Cynghorodd Dewi bobl i wneud y pethau bychain roedden nhw wedi'i weld yntau yn eu gwneud. Ers y flwyddyn newydd, efallai fod gennych chi addunedau rydych chi wedi methu eu cadw, neu rydych yn brysur eto ac mae'n rhy anodd i chi gadw at eich bwriad. Yn ystod y Grawys, sy'n dechrau ar 2 Mawrth ac yn gorffen ar 17 Ebrill eleni, rydyn ni Gristnogion yn rhoi'r gorau i rywbeth neu'n dechrau gwneud rhywbeth o'r newydd yn ystod y cyfnod hwn. Bydd gwneud hyn yn ein helpu i ddod yn nes at Dduw drwy ein hymrwymiad a'n hymgysegriad iddo. Efallai yr hoffech chi wneud rhywbeth ar gyfer y Grawys. Os ydyn ni'n mynd i wrando ar gyngor Dewi Sant i wneud y pethau bychain, efallai y gallai hyn ein helpu i reoli ein hamser yn well neu i ddechrau gwneud rhywbeth penodol. Yn union fel yr hen ddihareb o Affrica sy'n dweud mai'r unig ffordd i fwyta eliffant yw un llond ceg ar y tro. Gall rhannu project neu nod dros amser fod yn fwy effeithiol ac yn haws i'n meddwl ei dderbyn yn wyneb yr heriau dyddiol sydd yn aml o'n blaenau.

Boed i'ch mis Mawrth 2022 chi fod yn un llawn bendithion a phleser, yn llawn rhinweddau'r dyddiau goleuach ac arwyddion y Gwanwyn. Boed i chi garu bywyd a ffynhonnell y cariad hwnnw yn Iesu Grist. Os nad ydych chi'n ei adnabod eisoes, rwy'n gobeithio y byddwch yn troi ato ac yn profi llawenydd tebyg i lawenydd yr ŵyn sy'n prancio yn y caeau o'n cwmpas.

*Martin Pritchard*
*Offeiriad yr Ardal Genhadu*


**CARPET SALES & INSTALL**
**Home Choose Carpets**
**Quality Sampling Service**
**FREE Estimates**
**CARPET & RUG CLEANING**
**Call Andy**
**07900 907253**
**wetordrycarpetcleaning.com**

# Ryseitiau'r mis

**Risoto pwmpen cnau menyn wedi'i rhostio**

**Cynhwysion**
Pwmpen cnau menyn
Powder bouillon i wneud stoc (4 llwy de i 1 litr o ddŵr poeth)
Cwmin mâl
Coriander mâl
Olew olewydd / olew llysiau
Reis risoto
Nionyn
Garlleg
Caws Parma
Dail coriander (os hoffech chi)

Piliwch y bwmpen, tynnwch yr hadau allan, a thorrwch hi'n ddarnau tua 1–2cm, a'u rhoi ar hambwrdd pobi.
Gorchuddiwch y darnau â'r olew, y cwmin a'r coriander. Cymysgwch y cyfan yn dda.
Rhowch y darnau mewn popty 200 °C a rhostiwch nhw am ryw 30–40 munud, neu nes bydd y bwmpen yn feddal. Trowch nhw nawr ac yn y man.
Fe gewch chi goginio'r bwmpen cnau menyn ymlaen llaw.

I wneud y risoto:
Torrwch y nionyn yn ddarnau mân a'u rhoi mewn padell ffrio fawr gydag ychydig o olew. Coginiwch nhw'n araf nes eu bod nhw'n eddal, ond heb droi'n frown (gallwch arbed hyn drwy ychwanegu ychydig bach o halen).
Pan mae'r nionyn yn feddal, ychwanegwch garlleg wedi'i dorri'n fân a reis risoto (yn fras: 1 llond llaw o reis i bob person). Trowch y cymysgedd i orchuddio'r reis.
Ychwanegwch y stoc poeth (tua 100ml ar y tro) a throwch y reis nes bydd wedi amsugno'r hylif i gyd. Daliwch ati nes bydd y reis wedi'i goginio (bydd faint o stoc yn amrywio yn ôl faint o res sydd gennych chi).
Ychwanegwch y bwmpen cnau menyn (fe gewch chi benderfynu faint i'w roi) a'i droi i'w gynhesu drwodd.
Ychwanegwch gaws Parma wedi'i gratio (fel arfer, rwy'n rhoi rhyw un llond llaw), a'i droi nes y bydd wedi ymdoddi i'r cymysgedd.
Gweinwch gydag ychydig rhagor o gaws Parma neu ychydig o ddail coriander wedi'u torri'n fân.

**Cawl pwmpen cnau menyn wedi'i rhostio**

**Cynhwysion**
Pwmpen cnau menyn wedi'I rhostio sy'n weddill o'r rysait arall, neu dilynwch y cyfarwyddiadau i'w goginio.
Stoc llysiau.


I bob 400g o bwmpen cnau menyn wedi'i rhostio, ychwanegwch 1 litr o stoc llysiau poeth.
Rhowch y cymysgedd mewn sosban a'i flendio nes bydd yn llyfn.
Cynheswch y cawl, gan ychwanegu halen a phupur i'ch dant chi. Gweinwch y cawl, os hoffech chi, gydag ychydig o ddail coriander.

*Ed Howarth*

GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364

# Etholiad Cyngor Plwyf Llandyrnog, ddiwedd yr 1940au



Daeth Rod Williams, Rhiwbebyll Isaf, ar draws hen nodyn diddorol iawn am etholiad ar gyfer y Cyngor Plwyf. Does neb yn siŵr o'r flwyddyn, ond fe allai fod ar ddiwedd yr 1940au, gan fod tad Rod, Jim Williams, wedi marw yn 1952.

Roedd deunaw ymgeisydd am bymtheg sedd, ac fe ddaeth nifer fawr iawn allan i bleidleisio.

Mae'r rheini ohonom sydd yn ffodus i fod wedi byw yma'n ddigon hir yn adnabod y rhan fwyaf o'r enwau ar y rhestr. Roedd pob un ohonyn nhw, wedi'u hethol ai peidio, yn hoelion wyth y gymuned ac yn fawr eu parch. Mae'n amlwg eu bod nhw i gyd wedi marw erbyn hyn. Fodd bynnag roedd Les Griffiths ar dir y byw tan ddiwedd 2021, felly mae'n rhaid mai fe oedd yr ymgeisydd ieuengaf.

Y rheswm pennaf dros gynnwys hwn yw tynnu'ch sylw at y cyfle a ddaw i chi yn ystod y mis i gynnig eich enw fel ymgeisydd ar gyfer un o seddi'r y Cyngor Cymuned. Bydd pecynnau i ymgeiswyr, amserlen, a'r holl fanylion ar gael ar wefan y Cyngor Cymuned, www.llandyrnogcommunitcouncil.co.uk, ddydd Gwener, 18 Mawrth.

Diolch i Rod am rannu hwn, ac i Gwilym Evans (mab T.H. Evans) am eich ymchwil. Gyda llaw, cafodd tadau Rod a Gwilym eu hethol!

*Bryn Davies*

| Ymgeisydd | Nifer pleid-leisiau | Etholwyd |
|---|---|---|
| Arthur Amos | 235 | Do |
| Colonel Barton Glan y Wern Hall | 102 | Naddo |
| Miss Behrens Erw Vran | 164 | Do |
| R.J.Davies | 54 | Naddo |
| R.M. Davies The Bee | 192 | Do |
| Roderick Davies Rhiwbebyll Bella | 215 | Do |
| T.R. Davies Coediog | 201 | Do |
| T.H. Evans Fron Yw Cottages | 197 | Do |
| G.H. Ffoulkes Ty'n Llan | 172 | Do |
| E.G. Gibbs Min y Rhiw | 176 | Do |
| Leslie Griffiths Speddyd | 184 | Do |
| Rev J. Hughes Monfa | 190 | Do |
| Mrs.O. Hughes Pen y Groes | 63 | Naddo |
| Robert Hughes Ty Gwyn | 161 | Do |
| E.D. Lloyd Glan y Wern Isa | 225 | Do |
| Harry Owen Glan y Wern Farm | 219 | Do |
| James neu Jim Williams, Fron Gelyn | 194 | Do |

# Detholiad o *Trem yn ôl*

**Ffordd Ddŵr Cottage**



Adeiladwyd y bwthyn (adeilad a ffrâm bren) tua 1623 yn ôl y plac uwchben y drws. Mae'n fwy na thebyg bod y plethwaith a chlai wedi'i gau mewn carreg ers y 19eg ganrif. Mae ffynnon gerllaw'r tŷ.

Mae cofnodion diwedd y 18fed ganrif yn dangos bod John a Mary Williams yn ffermio yn Fforddŵr, ond mae cofnodion cynnar y cyfrifiad yn dangos mwy nag un cofnod ar gyfer Ffordd Ddŵr. Mae hyn yn fwy na thebyg yn cynnwys safle arall gerllaw, fel y gwelir ar Fap y Degwm 1839. Dim ond cerrig sydd yno heddiw. Yn nes ymlaen, daeth Ffordd Ddŵr, fferm o 9½ acer yn 1861, yn fwthyn cipar.

Yn 1924, mae dogfennau'n cofnodi marwolaeth A.C. (Sandy) Irvine, a gollodd ei fywyd gyda'i gydymaith, George Mallory, ar fynydd Everest. Bu'r teulu Irvine yn defnyddio Ffordd Ddŵr fel bwthyn gwyliau yn ystod yr 1920au, cyn iddyn nhw symud o Benbedw i Gynwyd tua 1927. Roedd tad Sandy, William Ferguson Irvine yn hanesydd a adawodd trysorfa o wybodaeth am ardal Cynwyd ar ei ôl.

(*Detholiad o* Trem yn ôl – Llandyrnog and Llangwyfan*, cyhoeddwyd gan Gymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan, ac mae ar werth yn swyddfa'r post*)



*Ffordd Ddŵr Cottage fel y mae heddiw. Yn anffodus, does dim dyddiad ar gyfer llun y bwthyn sydd ar y dudalen flaen.*

## Gaeaf Llawn Lles
## i blant a phobl ifanc Sir Ddinbych

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu amrywiaeth o weithgareddau dwyieithog sy'n seiliedig ar chwaraeon, diwylliant a chwarae, a hynny'n rhad ac am ddim fel rhan o Raglen Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru.
Am ragor o wybodaeth, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/gaeaf-llawn-lles.

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**





**4 Kinmel Terrace, Llandyrnog**
***Locally bred and home-killed meat***
**Hours of business:**
**Monday — closed**
**Tuesday–Friday 8am–5:30pm**
**Saturday 8am–2pm**
***Deliveries daily throughout the area***

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror y Cyngor Cymuned

- Cafwyd llythyr gan Helen Jones sy'n dymuno ymddiswyddo o'i gwaith gofalu am yr Ystafelloedd Coco oherwydd gofynion eraill arni.
- Mae'r Cyngor Sir wedi cynnig plannu dwy goeden i goffau Jiwbilî'r Frenhines a phenderfynwyd derbyn y cynnig – bydd angen penderfynu ar y lleoliad a'r math o goeden eto. Mae'r teulu Rowley-Williams wedi gwneud cynnig tebyg.
- Yn anffodus, mae ymdrechion y Cyngor Sir i ddod â ffibr llawn i'r Ystafelloedd Coco wedi dod i ben oherwydd nad oes arian i dalu am gwblhau'r cynllun. Fodd bynnag, penderfynwyd ystyried hyn eto i weld a fyddai'r Cyngor Cymuned yn gallu helpu mewn unrhyw fodd.
- Roedd hi'n siomedig nad oedd y Cyngor Sir wedi trwsio'r tyllau dwfn yn y ffordd ger y gwaith trin carthion, er bod y cyngor wedi cadarnhau ei fod wedi cael y cwynion. Mae'r rhigolau o gwmpas ardal Llangwyfan heb eu gwacáu chwaith.
- Mae teulu hael iawn sy'n dymuno bod yn ddienw wedi rhoi cyfraniad o £100 tuag at flodau'r gwanwyn ar y gylchfan.
- Rhoddwyd adroddiad llawn ar y cyfarfod diweddar o Bwyllgor Cyswllt Trigolion MHC gan ddau gynghorydd a fu'n bresennol ynddo.
- Bydd yr arosfannau bysiau'n cael eu peintio yn y Gwanwyn.
- Cafwyd cadarnhad y bydd y gwaith o roi wyneb newydd ar y ffordd rhwng y pentre a Maes Clwyd yn dechrau cyn bo hir. Hefyd, bydd ychydig o waith yn cael ei wneud ar y B5429 rhwng y Waen ac Aberchwiler.
- Roedd y ceisiadau cynllunio a drafodwyd yn cynnwys:

  Estyniad i Arosfa
  Dymchwel ysgubor ac estyniad i Blas Llangwyfan
  Estyniad i'r Rofft
  Cymeradwyo materion a gedwir yn ôl – tir gyferbyn â Chwm Tawel
- Ceisiadau am gymorth ariannol – penderfynwyd rhoi cymorth ariannol i'r canlynol a oedd wedi gofyn am arian yn ystod y flwyddyn:

  Tuesday Club £100.00
  Brownies Llandyrnog £100.00
  Hosbis St Cyndeyrn £100.00
  Tŷ Gobaith £100.00
  Yr Urdd £100.00

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

Prompt Travel
Taxi & Private Hire
4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week
Incorporating Vale Private Hire
01824 790485
07974 862027
Teithiau Prydlon
Tacsi a Hurio Preifat